

## Heddlu Gwent – cyfreithlondeb

### Trosolwg – Pa mor gyfreithlon yw'r heddlu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?

#### Dyfarniad cyffredinol



Da

Trwy gydol 2015, mae rhaglen archwiliad cyfreithlondeb PEEL HMIC wedi asesu'r diwylliant o fewn Heddlu Gwent, a sut mae hyn wedi ei adlewyrchu yn ymgysylltiad cyhoeddus yr heddlu, defnydd o Taser a chydymffurfiad gyda'r cynllun Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio.

Roedd Heddlu Gwent yn gwneud ymgais amlwg i ddatblygu a chynnal amgylchedd gwaith moesol ar draws yr heddlu. Roedd gan yr heddlu ddealltwriaeth dda o'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu ac yn defnyddio ystod o ddulliau i ymgysylltu gyda'r bobl yn ei gymdogaethau lleol, ceisio eu barn a'u hysbysu o beth sy'n digwydd.

Mae Heddlu Gwent yn cydymffurfio gyda'r cynllun Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio, ac mae ei ddefnydd Taser yn deg a phriodol.

Dyma'r tro cyntaf i HMIC raddio heddluoedd ar eu cyfreithlondeb, felly nid yw'n bosibl cyflawni cymhariaeth blwyddyn ar flwyddyn.

#### Crynodeb

Canfu HMIC fod staff yn parchu tîm prif swyddog Gwent a bod aelodau yn ymgysylltu'n dda gyda'r gweithlu, gan gyflwyno eu gweledigaeth a gwerthoedd, i ddatblygu a chynnal amgylchedd gwaith moesol. Mae hyn wedi creu gweithlu hyderus, ymgysylltiol oedd yn teimlo y gallent ddylanwadu ar a gwella ei wasanaeth i'r cyhoedd.

Roedd yr heddlu wedi cwblhau rhaglenni codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant i hyrwyddo'r Cod Moeseg, i integreiddio ystyriaethau moesol i wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd. Deliwyd â chwynion ac achosion camymddwyn mewn modd teg a chyson gan nodi gwersi i'w dysgu a'u lledaenu i wella ymarfer.

Pan edrychodd HMIC ar pa mor dda mae'r heddlu yn deall ac ymgysylltu gyda'r bobl mae'n eu gwasanaethu, fe welsom fod swyddogion a staff yn defnyddio ystod o ddulliau i ymgysylltu'n effeithiol gyda chymunedau lleol, yn deall eu hanghenion a hysbysu pobl. O ganlyniad, roeddem yn fodlon fod gan Heddlu Gwent ddealltwriaeth dda o anghenion ei gymunedau ac mae pobl leol yn cael eu trin yn deg a gyda pharch.

Mae stopio a chwilio a Taser yn ddwy ffordd sydd ar gael i'r heddlu i atal troseddu a diogelu'r cyhoedd. Fodd bynnag, gallant fod yn ddulliau ymwithiol a gorfodol, ac felly mae'n allweddol fod yr heddlu'n eu defnyddio'n deg a phriodol. Mae Heddlu Gwent yn cydymffurfio gyda'r cynllun Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio, er bod angen mwy o waith i sicrhau fod cofnodion stopio a chwilio yn cynnwys y "seiliau rhesymol" gofynnol.

Mae'r ffordd y mae swyddogion Taser yn cael eu dethol a'u hyfforddi yn gymedrol a chyson, ac mae HMIC yn ystyried bod ei ddefnydd o Taser yn deg a phriodol. Mae gan swyddogion wedi eu hyfforddi i ddefnyddio Taser ddealltwriaeth dda o'r Model Penderfynu Cenedlaethol, ond mae angen mwy o waith i sicrhau fod ei ddefnydd wedi ei gofnodi'n briodol ar ffurflenni Taser.

## **I ba raddau mae ymarfer ac ymddygiad yn atgyfnerthu lles staff a diwylliant moesegol?**

Canfu HMIC fod tîm y prif swyddog yn Heddlu Gwent wedi gwneud ymdrech arwyddocaol i ymgysylltu gyda'r gweithlu a sefydlu ei weledigaeth a gwerthoedd. Roedd yr ymarfer ac ymddygiad yn yr heddlu yn adlewyrchu diwylliant moesol.

Roedd yr heddlu wedi cyflawni arolygon i wella ei ddealltwriaeth o'i weithlu, gan gynnwys eu gwerthoedd a barnau ar sut gall y sefydliad wella. Mae'r ymagwedd hon wedi creu gweithlu hyderus, ymgysylltiol oedd yn teimlo y gallent ddylanwadu ar y gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd.

Roedd staff y siaradwyd gyda nhw yn teimlo'n hyderus i allu herio ymddygiad anfoesol, naill ai'n uniongyrchol neu trwy ddefnyddio llinell adrodd gyfrinachol.

Roedd yr heddlu yn ymroddedig i wella lles ei staff gydag adran iechyd galwedigaethol effeithiol oedd yn ymgysylltu â'r gweithlu.

Roedd yr heddlu wedi hyrwyddo'r Cod Moeseg, er mwyn i swyddogion a staff ystyried materion moesol wrth wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd. Gwelsom nad oedd rhai swyddogion a staff yn deall y cod yn ddigonol i'w roi ar waith yn gyson yn eu gwaith dyddiol.

Roedd swyddogion a staff yn ystyried y deliwyd gyda chwynion ac achosion camymddygiad mewn modd teg a chyson. Roedd gwersi a ddysgwyd yn cael eu bwydo yn ôl i'r gweithlu i wella gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymarfer.



**Da**

## **Pa mor dda mae'r heddlu yn deall, ymgysylltu gydag a thrin y bobl mae'n eu gwasanaethu yn deg i gynnal a gwella ei gyfreithlondeb?**

Canfu HMIC ymgysylltu rhagorol gan Heddlu Gwent gyda'i gymunedau lleol. Mae'r rhan fwyaf o swyddogion a staff yn deall sut mae hyn yn meithrin ymddiriedaeth a hyder.

Mae'r heddlu'n defnyddio ystod o ddulliau i ddeall anghenion ei gymunedau lleol, yn cynnwys teilwra rhai i fodloni anghenion penodol y gymuned. Defnyddir cyfarfodydd cyhoeddus rheolaidd, cymorthfeydd cymunedol, arolygon a chyfryngau cymdeithasol i gasglu barn pobl leol a rhoi gwybod iddynt beth sy'n digwydd. Trwy'r ymgysylltu hwn mae'r heddlu yn gallu asesu effaith unrhyw ddirigwyddiadau cymunedol neu broblemau ac ymateb yn effeithiol.

Mae'r heddlu'n cydnabod gwerth gwirfoddolwyr yn gweithio yn ei gymunedau a bod yn amrediad o gyfleoedd i'r cyhoedd gymryd rhan mewn gweithgareddau plismona lleol.

Gwelwyd fod atebwyr galwadau a staff yn gweithio ar y ddesg flaen mewn gorsafoedd heddlu yn gyson gwrtais a chymwynasgar. Roedd y rhan fwyaf o'r swyddogion a staff y siaradwyd â nhw yn deall pwysigrwydd gwneud penderfyniadau rhesymegol, moesol a sut mae eu hymddygiad yn effeithio ar y lefel o ymddiriedaeth a hyder sydd gan y cyhoedd ynddynt.



**Rhagorol**

## **I ba raddau y mae penderfyniadau ar ddefnyddio stopio a chwilio a Thaser yn deg a phriodol?**

Mae Heddlu Gwent yn cydymffurfio gyda'r cynllun Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio. Mae achosion stopio a chwilio yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, gan gynnwys effaith bosibl ar gymunedau, ac fe gyhoeddir y canlyniadau'n lleol. Mae'r heddlu wedi cyflwyno cynllun cysgodi ac mae awdurdodiadau Adran 60 wedi lleihau.

Mae'r rhan fwyaf o'r swyddogion yn deall eu pwerau parthed stopio a chwilio ac yn defnyddio'r Model Penderfynu Cenedlaethol wrth ystyried y pwerau hyn. Mae angen

mwy o waith i sicrhau fod cofnodion stopio a chwilio yn cynnwys y "seiliau rhesymol" gofynnol.

Mae'r dulliau o ddethol a hyfforddi swyddogion Taser yn gymedrol a chyson, ac mae HMIC yn ystyried bod ei ddefnydd o Taser yn deg a phriodol.

Mae gan swyddogion wedi eu hyfforddi i ddefnyddio Taser ddealltwriaeth dda o'r Model Penderfynu Cenedlaethol, ond mae angen mwy o waith i sicrhau fod ei ddefnydd wedi ei gofnodi'n briodol ar ffurflenni Taser.



**Da**

### **Meysydd i'w gwella**

- Dylai'r heddlu sicrhau bod cofnodion stopio a chwilio yn cynnwys sail rhesymol ddigonol i gyfiawnhau'r defnydd cyfreithlon o'r pŵer, a bod swyddogion yn deall y seiliau gofynnol ar gyfer stopio a chwilio yn llawn.